

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Ionawr 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/12593>

44(v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda'r Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Datganiad gan y Llywydd

Ar ran yr Aelodau, dymunodd y Llywydd adferiad buan i Seth Burke, Aelod o Senedd Ieuencid Cymru, a fu yn yr ysbyty dros y Nadolig, yn gwella o COVID-19.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd cwestiynau 1–6, 8 a 9. Atebwyd cwestiynau 1 a 9 gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.28

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.22



Gofynnwyd y cwestiwn.

4 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.26

Gwnaeth Mick Antoniw ddatganiad i dalu teyrnged i Hanef Bhamjee OBE, yr ymgyrchydd gwrth-apartheid o Gaerdydd.

Gwnaeth Vikki Howells ddatganiad i dalu teyrnged i Ron Jones, y pencampwr chwaraeon o Gwmaman.

Gwnaeth Sioned Williams ddatganiad i dalu teyrnged i Mike Jones, yr artist o Bontardawe.

Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.32

NDM7885 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sioned Williams (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Siân Gwenllian (Plaid Cymru).

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Dyled a'r pandemig

Dechreuodd yr eitem am 15.32

NDM7879 [Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Dyled a'r Pandemig, a [osodwyd](#) ar 15 Tachwedd 2021.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Dadl Plaid Cymru – Anghydraddoldebau iechyd

Dechreuodd yr eitem am 16.25

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7877 [Siân Gwenllian \(Arfon\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r anghydraddoldebau iechyd dwfn sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru.
2. Yn nodi ymhellach, oherwydd yr anghydraddoldebau hyn, fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar lawer o unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.
3. Yn galw am strategaeth a chynllun gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	28	56

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. [Lesley Griffiths \(Wrecsam\)](#)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod amryfal resymau yn achosi anghydraddoldeb iechyd a bod hyn yn gofyn am ddull gweithredu integredig a thrawslywodraethol.

Yn cydnabod ymhellach yr ymrwymïadau sylweddol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu ar draws pob maes o weithgarwch y llywodraeth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

[Rhaglen Lywodraethu](#)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	1	26	54

Derbyniwyd gwelliant 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7877 [Siân Gwenllïan \(Arfon\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r anghydraddoldebau iechyd dwfn sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru.
2. Yn nodi ymhellach, oherwydd yr anghydraddoldebau hyn, fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar lawer o unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.
3. Yn cydnabod bod amryfal resymau yn achosi anghydraddoldeb iechyd a bod hyn yn gofyn am ddull gweithredu integredig a thrawslywodraethol.
4. Yn cydnabod ymhellach yr ymrwymïadau sylweddol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu ar draws pob maes o weithgarwch y llywodraeth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

[Rhaglen lywodraethu](#)

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	1	26	54

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.29 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.32

9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.36

NDM7878 [Mark Isherwood \(Gogledd Cymru\)](#)

Pobl Fyddar Cymru: Anghydraddoldeb Cudd

Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.03

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022